

Ymgynghoriad ar Cod i Erlynwyr y Goron 2018



Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddir y Cod i Erlynwyr y Goron (y Cod) gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) o dan adran 10 Deddf Erlyn Troseddau 1985. Dyma wythfed cyhoeddiad y Cod ac mae'n disodli'r holl fersiynau cynharach.
- 1.2 Y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw pennaeth Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS), sef y prif wasanaeth erlyniad cyhoeddus i Gymru a Lloegr. Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gweithredu'n annibynnol, o dan oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am waith Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS).
- 1.3 Mae'r Cod yn rhoi arweiniad i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol sydd i gael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau. Mae'r Cod wedi'i gyhoeddi'n bennaf i erlynwyr yng Ngwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) ond mae erlynwyr eraill yn dilyn y Cod, naill ai drwy gonfensiwn neu am fod gofyn iddynt wneud hynny yn ôl y gyfraith.
- 1.4 Yn y Cod yma:
 - a) Defnyddir y term "Un a ddrwgdybir" i ddisgrifio person sydd o dan ystyriaeth fel pwnc achos troseddol ffurfiol;
 - b) Defnyddir y term "Diffynnydd" i ddisgrifio person sydd wedi cael ei gyhuddo neu ei wysio/ei alw i'r llys;
 - c) Defnyddir y gair "troseddwr" i ddisgrifio rhywun sydd wedi cyfaddef eu bod yn euog o gyflawni trosedd, neu a gafwyd yn euog mewn llys barn.

Yr Egwyddorion Cyffredinol

- 2.1 Mae annibyniaeth yr erlynydd yn ganolog i'r system cyfiawnder troseddol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae erlynwyr yn annibynnol oddi wrth bobl neu asiantaethau sydd ddim yn rhan o broses wneud penderfyniadau'r erlyniad. Maent hefyd yn annibynnol oddi wrth yr heddlu ac ymchwilwyr eraill. Mae'n rhaid i erlynwyr fod yn rhydd i wneud eu dyletswyddau proffesiynol heb ymyriad gwleidyddol ac ni ddylent gael eu heffiethio gan ddylanwad neu bwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell.
- 2.2 Mae'r penderfyniad i erlyn neu i argymell datrys achos tu allan i'r llys yn gam difrifol sy'n effeithio ar bobl a ddrwgdybir, dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae'n rhaid bod yn hynod o ofalus wrth wneud y penderfyniad yma.
- 2.3 Dyletswydd yr erlynwyr yw hi i sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir ac am ddod â throseddwyr i gyfiawnder lle bynnag y gallent. Mae penderfyniadau mewn gwaith achosion sy'n cael eu gwneud yn deg, yn ddiuedd a gyda gonestrwydd yn helpu i sicrhau cyfiawnder i dioddefwyr, tystion, pobl a ddrwgdybir, diffynyddion a'r cyhoedd. Mae'n rhaid i erlynwyr sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n gywir, bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei rhoi gerbron y llys a bod pobl yn cydymffurfio gyda goblygiadau datgeliad.
- 2.4 Er bod rhaid ystyried pob achos ar ei ffeithiau a'i deilyngdod ei hun, mae egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i bob achos.
- 2.5 Wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i erlynwyr fod yn deg a gwrthrychol. Ni ddylent adael i unrhyw farn bersonol am wreiddiau ethnig neu genedlaethol, rhywedd, anabledd,

oedran, crefydd neu gredoau, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywiol y bobl a ddrwgdybir, y diffynyddion, y dioddefwyr neu unrhyw dystion, ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Ni ddylent gael eu cymell chwaith gan ystyriaethau gwleidyddol. Mae'n rhaid i erlynwyr bob amser weithredu er budd cyfiawnder ac nid yn gyfan gwbl i bwrpas sicrhau euogfarn.

- 2.6 Mae Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn awdurdod cyhoeddus i bwrpasau deddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol a pherthnasol. Mae erlynwyr wedi eu clymu gan y dyletswyddau sydd wedi eu nodi yn y ddeddfwriaeth hon.
- 2.7 Mae'n rhaid i erlynwyr ddefnyddio egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998, ar bob cam o'r achos. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol a gyda pholisïau ac arweiniad Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) a gyhoeddir ar ran y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, heblaw pan benderfynir bod yna amgylchiadau eithriadol. Mae arweiniad Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn cynnwys ffactorau pellach sydd o fudd cyhoeddus ac sy'n ymwneud â thystiolaeth ar gyfer troseddwr a throseddau penodol ac mae ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar [wefan Gwasanaeth Erlyniad y Goron \(CPS\)](#). Mae'n rhaid i erlynwyr hefyd gydymffurfio gyda Rheolau'r Weithdrefn Droseddol a Chyfarwyddiadau Arferion Troseddol, ac ystyried Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu a'r goblygiadau sy'n codi o gonfensiynau rhyngwladol.
- 2.8 Mae Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn erlyn ar ran rhai o adrannau eraill y Llywodraeth. Mewn achosion o'r fath, dylai erlynwyr ystyried unrhyw bolisïau gorfodi perthnasol sydd gan yr adrannau hynny.
- 2.9 Gallai rhai troseddau gael eu herlyn gan naill ai Wasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) neu gan erlynwyr eraill yng Nghymru a

Lloegr. Wrth wneud penderfyniadau yn yr achosion yma, gallai erlynwyr, lle maent yn credu bod hynny'n briodol, ystyried unrhyw god neu bolisi erlyn perthnasol sydd gan yr erlynnydd arall.

- 2.10 Lle mae'r gyfraith yn gwahaniaethu yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i erlynwyr weithredu'r Cod ac ystyried unrhyw bolisi, arweiniad neu safon gyhuddo sy'n berthnasol.

Y Penderfyniad a Ddylid Erlyn ai Peidio

- 3.1 Mewn achosion mwy cymhleth neu ddifrifol, mae erlynwyr yn penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ac, os felly, beth ddylai'r drosedd fod. Gallai erlynwyr hefyd gynghori ar, neu awdurdodi, datrys tu allan i'r llys fel opsiwn arall yn lle erlyniad. Maent yn gwneud eu penderfyniadau yn unol â'r Cod yma, Arweiniad ar Gyhuddo gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac unrhyw arweiniad neu bolisi cyfreithiol perthnasol. Mae'r heddlu'n defnyddio'r un egwyddorion wrth benderfynu a ddylent gychwyn achosion troseddol yn erbyn person yn yr achosion hynny y maent yn gyfrifol amdanynt.
- 3.2 Mae'r heddlu ac ymchwilyr eraill yn gyfrifol am wneud ymholiadau i mewn i unrhyw drosedd honedig ac am benderfynu sut i ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau i gychwyn neu i barhau ymchwiliad a beth fydd cwmpas yr ymchwiliad. Dylai erlynwyr gynghori'r heddlu ac ymchwilyr eraill am linellau ymholi rhesymol posibl, gofynion tystiolaethol, gweithdrefnau cyn cyhuddo, rheoli datgeliad a'r strategaeth ymchwilio gyffredinol. Gallai hyn gynnwys penderfyniadau i fireinio neu i gulhau cwmpas yr ymddygiad troseddol a'r nifer o bobl a ddrwgdybir sydd o dan ymchwiliad. Mae cyngor fel yma'n helpu'r heddlu ac ymchwilyr eraill i gwblhau'r ymchwiliad o fewn cyfnod rhesymol o amser ac i adeiladu'r achos mwyaf effeithiol i'r erlyniad.
- 3.3 Ni all erlynwyr gyfarwyddo ymchwiliadau'r heddlu neu ymchwilyr eraill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i erlynwyr ystyried effaith unrhyw fethiant i ddilyn llinell ymholiad a gynghorwyd neu gydymffurfio gyda chais am wybodaeth, wrth benderfynu a ddylid gohirio gweithrediad y Prawf Cod Llawn neu a oes modd ateb y prawf o gwbl.
- 3.4 Dylai erlynwyr ganfod a, lle bo'n bosibl, geisio gwella gwendidau tystiolaethol, ond, yn amodol ar y Prawf Trothwy

(gwelwch adran 5), dylent roi stop yn sydyn ar achosion

sydd ddim yn cwrdd â'r cam tystiolaethol yn y Prawf Cod Llawn (gwelwch adran 4) ac na ellir eu cryfhau drwy ymchwiliad pellach, neu lle mae'n amlwg nad yw o fudd i'r cyhoedd i gael erlyniad (gwelwch adran 4). Er bod yr erlynwyr yn rhoi'r ystyriaeth yn bennaf i'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflenwir gan yr heddlu ac ymchwilydd eraill, gallai'r rhai a ddrwgdybir neu'r rheiny sy'n gweithredu ar ei ran/ei rhan hefyd gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth i'r erlynydd, cyn neu ar ôl y cyhuddo, er mwyn helpu i hysbysu penderfyniad yr erlynydd.

- 3.5 Ni ddylai erlynwyr gychwyn neu barhau erlyniad lle maent o'r farn ei bod hi'n hynod debygol y bydd llys yn penderfynu bod erlyniad yn cam-drin ei broses, ac yn oedi'r achos.
- 3.6 Mae erlynwyr yn adolygu pob achos a dderbyniant gan yr heddlu neu gan ymchwilydd eraill. Mae adolygiad yn broses barhaus ac mae'n rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n digwydd wrth i'r achos ddatblygu, gan gynnwys yr hyn a ddaw'n hysbys am achos y diffynydd, a derbyn unrhyw ddeunydd sydd heb gael ei ddefnyddio a allai danseilio achos yr erlyniad neu helpu achos y diffynydd, i'r graddau na ddylai'r erlyniad fynd yn ei flaen. Lle bynnag y bo modd, dylent ymgynghori â'r ymchwilydd wrth ystyried newid y cyhuddiadau neu roi stop ar yr achos. Mae erlynwyr ac ymchwilydd yn cydweithio'n agos, ond mae'r cyfrifoldeb terfynol am y penderfyniad a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio orwedd gyda Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS).
- 3.7 Mae'r Senedd wedi penderfynu na ddylid ond cymryd nifer gyfyngedig o droseddau i'r llys gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Yr enw ar y rhain yw achosion cydsyniad. Mewn achosion o'r fath, mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, neu erlynydd sy'n

gweithredu ar ei ran/rhan, yn gweithredu'r

Cod wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i erlyniad ai peidio.

- 3.8 Mae hefyd droseddau penodol na ellir eu cymryd i'r llys heb ganiatâd y Twrnai Cyffredinol. Mae'n rhaid i erlynwyr ddilyn y canllawiau cyfredol wrth gyfeirio achosion o'r fath i'r Twrnai Cyffredinol. Mae rhai troseddau'n gofyn cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol cyn i erlyniad gael ei gychwyn. Mae'n rhaid i erlynwyr gael caniatâd o'r fath cyn cyhuddo a gweithredu unrhyw arweiniad perthnasol yn yr achosion hyn. Yn ogystal, bydd y Twrnai Cyffredinol yn derbyn holl fanylion achosion penodol yn rhan o'i waith/gwaith goruchwyllo ar Wasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) a'i atebolrwydd i'r Senedd am ei weithredoedd.

Y Prawf Cod Llawn

- 4.1 Ni chaiff erlynwyr gychwyn neu barhau erlyniad nes bydd yr achos wedi pasio dau gam y Prawf Cod Llawn. Yr eithriad yw pan fydd modd gweithredu'r Prawf Trothwy (gwelwch adran 5).
- 4.2 Mae gan y Prawf Cod Llawn ddau gam: (i) y cam tystiolaethol; ac yn dilyn hynny (ii) cam diddordeb y cyhoedd.
- 4.3 Yn y mwyafrif o achosion ni fyddai'n briodol gweithredu'r Prawf Cod Llawn nes bydd llinellau rhesymol o ymholiad nad ydynt wedi eu dilyn eto wedi derbyn sylw. Fodd bynnag, gellir gweithredu'r Prawf Cod Llawn cyn i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, os yw'r erlynydd yn fodlon bod unrhyw dystiolaeth neu ddefnydd pellach yn annhebygol o effeithio ar weithrediad y Prawf Cod Llawn, p'un a yw hynny o blaid neu yn erbyn erlyniad.
- 4.4 Yn y mwyafrif o achosion, dylai erlynwyr ond ystyried a yw erlyniad er budd y cyhoedd ar ôl ystyried a oes digon o dystiolaeth i erlyn. Ond, bydd achosion yn codi lle mae'n amlwg, cyn adolygu'r holl dystiolaeth, nad yw'n ofynnol i erlyn er budd y cyhoedd. Yn y sefyllfaoedd yma, gallai'r erlynwyr benderfynu na ddylai'r achos fynd yn ei flaen ymhellach.
- 4.5 Dylai erlynwyr ond gwneud penderfyniad o'r fath pan maent yn fodlon eu bod wedi canfod faint yn fras yw'r troseddolrwydd a'u bod yn gallu gwneud asesiad cwbl hysbys o'r budd i'r cyhoedd. Os nad oes gan erlynwyr ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad o'r fath, dylai'r ymchwiliad barhau a dylid gwneud penderfyniad yn ddiweddarach yn unol â'r Prawf Cod Llawn sydd wedi'i ddisgrifio yn yr adran yma.

Y Cam Tystiolaethol

- 4.6 Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon bod digon o dystiolaeth i ddarparu posibilrwydd realistig o euogfarn yn erbyn pob un a ddrwgdybir ar bob cyhuddiad . Mae'n rhaid iddynt ystyried beth fydd achos posib y diffynnydd, a sut mae'n debygol o effeithio ar y posibilrwydd o euogfarn. Ni chaiff achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaethol fynd yn ei flaen, dim ots pa mor ddifrifol neu sensitif ydyw.
- 4.7 Mae'r canfyddiad bod siawns realistig o euogfarn wedi ei seilio ar asesiad gwrthrychol yr erlynnydd o'r dystiolaeth, yn cynnwys effaith unrhyw amddiffyniad ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r un a ddrwgdybir wedi ei chyflwyno neu y gallai ef neu hi ddibynnu arni. Mae'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n clywed achos yn unigol, sy'n wrthrychol, diduedd a rhesymol, wedi eu cyfarwyddo'n gywir ac yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad a honnir. Mae hwn yn brawf gwahanol i'r un y mae'n rhaid i'r llysoedd barn eu hunain eu gweithredu. Ni chaiff llys ond rhoi euogfarn os yw'n sicr bod y diffynnydd yn euog.
- 4.8 Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, dylai erlynwyr ofyn y canlynol wrthynt eu hunain:

A allai'r dystiolaeth gael ei defnyddio yn y llys?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â derbynioldeb tystiolaeth benodol. Wrth wneud hynny, dylai erlynwyr asesu:

* I bwrpasau'r Cod i Erlynwyr y Goron, mae "euogfarn" yn cynnwys canfod bod "y person wedi cyflawni'r weithred neu wedi gwneud yr hepgoriad" mewn amgylchiadau lle mae'r person yn debygol o fod wedi'i ganfod yn ddieuog ar sail gorffwylledd.

-
- a) pa mor debygol yw hi y bydd y llys yn cael y dystiolaeth yn annerbyniol; a
 - b) pwysigrwydd y dystiolaeth honno mewn perthynas â'r dystiolaeth gyfan.

A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i gwestiynnu pa mor ddibynadwy yw'r dystiolaeth, gan gynnwys ei chywirdeb neu ei gonestrwydd

A yw'r dystiolaeth yn gredadwy?

Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw resymau i amau credadwyedd y dystiolaeth.

A oes unrhyw ddeunydd arall a allai effeithio ar ddigonolrwydd y dystiolaeth?

Mae'n rhaid i'r erlynwyr ystyried ar y cam hwn a thrwy gydol yr achos a oes unrhyw ddeunydd a allai effeithio ar yr asesiad o ddigonolrwydd y dystiolaeth, yn cynnwys deunydd heb ei archwilio sydd yn nwylo'r heddlu, a deunydd a allai gael ei sichrau drwy ymholiadau pellach.

CWESTIWN 1

Ydych chi'n cytuno, wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, y dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw ddeunydd arall a allai effeithio ar ddigonolrwydd y dystiolaeth?

Cam Budd y Cyhoedd

- 4.9 Ymhob achos lle mae digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad neu i gynnig datrys yr achos tu allan i'r llys, mae'n rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i ystyried a oes angen erlyniad er budd y cyhoedd.

- 4.10 Nid yw wedi bod yn ddisgwyliad arferol erioed i erlyniad ddigwydd yn awtomatig unwaith mae'r cam tystiolaethol wedi'i gyflawni. Bydd erlyniad yn digwydd fel arfer heblaw bod yr erlynydd yn fodlon bod mwy o ffactorau budd y cyhoedd sy'n tueddu mynd yn erbyn erlyniad na'r ffactorau sy'n tueddu bod o blaid erlyniad. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yr erlynydd yn fodlon bod modd gwasanaethu buddiannau'r cyhoedd yn gywir drwy gynnig cyfle i'r troseddwr
- ddelio â'r mater drwy ddatrysiaid tu allan i'r llys yn hytrach na dod ag erlyniad.
- 4.11 Wrth benderfynu beth yw'r budd i'r cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried pob un o'r cwestiynau isod ym mharagraffau 4.14 a) i g) er mwyn pennu a phenderfynu beth yw'r ffactorau budd y cyhoedd perthnasol sy'n tueddu o blaid ac yn erbyn erlyniad. Dylai'r ffactorau hyn, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd sydd wedi eu nodi mewn canllawiau neu bolisi perthnasol a gyhoeddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, alluogi erlynwyr i wneud asesiad cyffredinol o fudd y cyhoedd.
- 4.12 Mae'r testun eglurhaol o dan bob cwestiwn ym mharagraffau 4.14 a) i g) yn rhoi arweiniad i erlynwyr wrth iddynt ymdrin â phob cwestiwn penodol a phenderfynu a ydyw'n canfod ffactorau budd y cyhoedd sydd o blaid neu yn erbyn erlyniad. Nid yw'r rhestr o gwestiynau'n rhestr gyflawn, ac efallai nad yw'r holl gwestiynau'n berthnasol ymhob achos. Bydd y pwysoli a roddir i bob un o'r cwestiynau, a'r ffactorau a ganfyddir, yn amrywio hefyd yn unol â ffactorau a theilyngdod pob achos.
- 4.13 Mae'n bosibl y gallai un ffactor budd y cyhoedd ar ei ben ei hun orchfygu nifer o ffactorau eraill sy'n tueddu gogwyddo i'r cyfeiriad arall. Er bod ffactorau budd y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyniad mewn achos

arbennig, dylai erlynwyr ystyried a ddylai erlyniad fynd yn ei flaen p'run bynnag ac y dylid rhoi'r ffactorau hynny gerbron y llys i'w hystyried pan fo'r dedfryd yn cael ei phasio.

4.14 Dylai erlynwyr ystyried bob un o'r cwestiynau a ganlyn:

a) Pa mor ddifrifol yw'r drosedd a weithredwyd?

- Po fwyaf difrifol yw'r drosedd, y mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.
- Mae'r ddedfryd debygol pan geir euogfarn yn ddangosydd o ddifrifoldeb y drosedd.

b) Beth yw lefel euogrwydd yr un a ddrwgdybir?

- Po fwyaf yw lefel euogrwydd yr un a ddrwgdybir, y mwyaf tebygol yw hi bod angen erlyniad.
- Mae'n debyg y bydd euogrwydd yn cael ei benderfynu drwy:

i. lefel y gyfranogaeth gan yr un a ddrwgdybir;

ii. i ba raddau yr oedd y troseddu wedi'i fwriadu a/neu wedi ei gynllunio;

iii. i ba raddau y mae'r un a ddrwgdybir wedi elwa o'r ymddygiad troseddol;

iv. p'un a oes gan yr un a ddrwgdybir euogfarnau troseddol blaenorol a/neu achosion a ddatryswyd tu allan i'r llys ac a wnaeth unrhyw droseddu pan oedd ar fechnïaeth neu pan oedd yn atebol i orchymyn llys;

v. p'un a oedd, neu a yw, y troseddu'n debygol o barhau, cynyddu neu gael ei ailadrodd;

vi. oedran neu aeddfedrwydd yr un a ddrwgdybir (gwelwch baragraff d isod ar gyfer rhai a ddrwgdybir sy'n iau na 18 oed).

- Mae'r un a ddrwgdybir yn debygol o fod â lefel llawer is o euogrwydd os cafodd ei gymell/chymell, ei h/annog neu ei h/ecsbloetio, yn enwedig os yw wedi dioddef trosedd sy'n gysylltiedig â'r troseddu a wnaeth.
- Dylai'r erlynwyr hefyd ystyried a yw'r un a ddrwgdybir, neu a oedd yr un a ddrwgdybir ar amser y drosedd, yn dioddef o unrhyw salwch meddwl neu gorfforol arwyddocaol, oherwydd,

mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn olygu ei bod hi'n llai tebygol y bydd angen erlyniad. Fodd bynnag, bydd angen i erlynwyr hefyd ystyried pa mor ddifrifol oedd y drosedd, p'un a yw'r un a ddrwgdybir yn debygol o aildroseddu a'r angen am ddiogelu'r cyhoedd neu'r rheiny sy'n darparu gofal i bobl o'r fath.

c) Beth yw amgylchiadau'r dioddefwr a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr?

- Mae amgylchiadau'r dioddefwr yn hynod berthnasol. Po fwyaf agored i niwed oedd sefyllfa'r dioddefwyr, neu po fwyaf agored i niwed yr ymddangosai'r dioddefwr, y mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.
- Mae hyn yn cynnwys man lle mae sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod yn bodoli rhwng yr un a ddrwgdybir a'r dioddefwr.
- Mae erlyniad yn fwy tebygol hefyd os yw'r drosedd wedi'i gwneud yn erbyn dioddefwr oedd yn gwasanaethu'r cyhoedd ar y pryd.
- Mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyniad os cafodd y drosedd ei chymell gan unrhyw fath o ragfarn yn erbyn gwreiddiau cenedlaethol neu ethnigrwydd tybiedig neu wirioneddol y dioddefwr, neu rywedd, anabledd, oedran, crefydd neu gredoau, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth

rhywiol y dioddefwr; neu os yw'r un a ddrwgdybir wedi targedu neu ecsbloetio'r dioddefwr, neu wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr ar sail unrhyw rai o'r nodweddion hynny.

- Mae angen i erlynwyr hefyd ystyried a yw erlyniad yn debygol o gael effiath niweidiol ar iechyd corfforol neu feddylol y dioddefwr, gan gofio bob amser mor ddifrifol yw'r drosedd, a oes mesurau arbennig ar gael a'r posibilrwydd o erlyniad heb gyfranogaeth y dioddefwr.
- Dylai erlynwyr gymryd i ystyriaeth y sylwadau a fynegir gan y dioddefwr am yr effaith y mae'r drosedd wedi'i gael. Mewn achosion priodol, gallai hyn hefyd gynnwys barn teulu'r dioddefwr.
- Fodd bynnag, nid yw Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn gweithredu ar ran dioddefwyr neu eu teuluoedd yn yr un ffordd ag y mae cyfreithwyr yn gweithredu ar ran eu cleientiaid, ac mae'n rhaid i erlynwyr ffurfio barn gyffredinol am y budd i'r cyhoedd.

d) A oedd yr un a ddrwgdybir yn iau na 18 oed pan ddigwyddodd y drosedd?

- Mae'r system cyfiawnder troseddol yn trin plant a phobl ifanc yn wahanol i oedolion ac mae'n rhaid rhoi pwys mawr ar oedran yr un a ddrwgdybir os ydynt yn blentyn neu'n berson ifanc iau na 18 oed.
- Rhaid ystyried buddiannau gorau a lles y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys a yw'r erlyniad yn debygol o gael effaith wael ar eu rhagolygon yn y dyfodol sy'n anghymesur â difrifoldeb y troseddu.

- Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried prif nod y system cyfiawnder ieuencid, sy'n atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i erlynwyr hefyd ystyried y goblygiadau sy'n codi o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989.
- Dylai'r erlynwyr ystyried aeddfedrwydd yr un a ddrwgdybir, yn ogystal â'u hoedran cronolegol, oherwydd bydd oedolion ifanc yn parhau i aeddfedu i mewn i'w hugeiniau canol.
- Fel man cychwyn, po fwyaf ifanc yw'r un a ddrwgdybir, y lleiaf tebygol yw hi y bydd angen erlyniad.
- Fodd bynnag, efallai bod amgylchiadau sy'n golygu bod erlyniad o fudd i'r cyhoedd, er gwaethaf y ffaith fod yr un a ddrwgdybir yn iau na 18 oed neu heb aeddfedu'n llawn. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle:
 - i. mae'r drosedd a wnaed yn ddifrifol;
 - ii. mae cofnod hanesyddol yr un a ddrwgdybir yn awgrymu nad oes unrhyw ddewis arall heblaw erlyniad; a
 - iii. mae'r ffaith na chafwyd cyfaddefiad yn golygu nad yw unrhyw ddatrysiadau tu allan i'r llys ar gael a fyddai wedi gallu ymdrin â'r ymddygiad troseddol.

e) **Beth yw'r effaith ar y gymuned?**

- Po fwyaf yw effaith y troseddu ar y gymuned, y mwyaf tebygol yw hi bod angen erlyniad.
- Gallai amlygrwydd trosedd yn y gymuned achosi niwed arbennig i'r gymuned honno, gan gynyddu difrifoldeb y troseddu.
- Nid yw cymuned wedi'i chyfyngu i gymunedau sydd wedi eu dffinio yn ôl eu lleoliad a gallent ymwneud â grŵp o bobl sy'n rhannu nodweddion, profiadau neu gefndiroedd penodol, yn cynnwys grŵp galwedigaethol.

-
- Gellir cael tystiolaeth o effaith ar y gymuned drwy Ddatganiad Effaith ar y Gymuned.

f) A yw'r erlyniad yn ymateb cyfatebol?

- Wrth ystyried a yw erlyniad yn gymesur â'r canlyniad tebygol, efallai y bydd y dilynol yn berthnasol:
 - i. Y gost i Wasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) a'r system cyfiawnder ehangach, yn enwedig lle gellid ei ystyried yn ormodol pan fo wedi'i bwysoli yn erbyn unrhyw gosb tebygol. Ni ddylai erlynwyr benderfynu ynglŷn â budd y cyhoedd ar sail y ffactor yma yn unig. Mae'n hanfodol bod ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i ffactorau budd y cyhoedd a ganfyddir wrth ystyried y cwestiynau eraill ym mharagraffau 4.14 a) i g) ond gall y gost fod yn ffactor perthasol wrth wneud asesiad cyffredinol o fudd y cyhoedd.
 - ii. Dylai achosion gael eu herlyn yn unol ag egwyddorion rheoli achosion effeithiol. Er enghraifft, mewn achos sy'n cynnwys nifer o bobl a ddrwgdybir, gallai'r erlyniad gael ei chadw ar gyfer y prif gyfranogwyr er mwyn osgoi achosion eithriadol hir a chymhleth.

g) A oes angen amddiffyn ffynonellau gwybodaeth?

- Mewn achosion lle nad yw imiwnedd budd y cyhoedd yn berthnasol, dylid cymryd gofal arbennig wrth symud ymlaen gydag erlyniad lle mae angen gwneud manylion yn gyhoeddus a allai niweidio ffynonellau gwybodaeth, ymchwiliadau parhaus, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod achosion o'r fath yn cael eu cadw o dan adolygiad parhaus.

Y Prawf Trothwy

- 5.1 Mewn amgylchiadau cyfyngedig, lle nad yw'r Prawf Cod Llawn wedi'i gyflawni, gellir gweithredu'r Prawf Trothwy i gyhuddo rhywun a ddrwgdybir. Mae'n rhaid i ddifrifoldeb neu amgylchiadau'r achos gyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith, ac mae'n rhaid cael sail sylweddol i wrthwynebu mechnïaeth.
- 5.2 Rhaid cael archwiliad trwyadl o amodau'r Prawf Trothwy, i sicrhau mai dim ond pan mae'n angenrheidiol y mae'n cael ei weithredu ac nad yw'r achosion yn cael eu cyhuddo'n gynamserol. Os nad yw unrhyw rai o'r amodau wedi eu cyflawni ni ellir gweithredu'r Prawf Trothwy ac ni ellir cyhuddo'r un a ddrwgdybir.
- 5.3 Ni ellir gweithredu'r prawf trothwy heblaw lle mae un neu'r llall o'r sefyllfaoedd canlynol yn berthnasol ac mae pob un o'r tri amod ym mharagraff 5.11 - 5.13 yn berthnasol.

Y sefyllfa gyntaf - Mae rhagor o dystiolaeth yn cael ei sicrhau i ateb cam dystiolaethol y Prawf Cod Llawn

- 5.4 Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon bod y ddau amod (a) a (b) wedi eu cyflawni:

a) Mae sylfaen resymol i ddrwgdybio bod y sawl sydd i gael ei gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd

- 5.5 Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon, wrth wneud asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth, bod rheswm da dros ddrwgdybio bod y sawl sydd i gael ei gyhuddo wedi cyflawni'r drosedd. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried effaith unrhyw amddiffyniad neu wybodaeth y mae'r un a ddrwgdybir wedi ei gyflwyno neu y gallai fod yn dibynnu arno.
- 5.6 Wrth benderfynu a oes sail rhesmyol i ddrwgdybio, mae'n rhaid i erlynwyr ystyried yr holl ddefnyddiau neu wybodaeth

sydd gael gael, p'un a ydyw mewn fformat dystiolaethol neu

fel arall. Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon bod y deunydd y mae'n rhaid dibynnu arno ar y cam yma yn:

- i. gallu cael ei roi i mewn i fformat derbyniol ar gyfer ei gyflwyno yn y llys; a
- ii. ddibynadwy; ac yn
- iii. gredadwy.

b) Gellir sicrhau tystiolaeth bellach i ddarparu rhagolwg realistig o euogfarn

5.7 Mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon bod sylfaen resymol i gredu y bydd yr ymchwiliad parhaus yn darparu rhagor o dystiolaeth, o fewn cyfnod rhesymol o amser, fel bod y dystiolaeth i gyd ynghyd yn gallu sefydlu rhagolwg realistig o euogfarn yn unol â'r Prawf Cod Llawn.

5.8 Ni chaiff y dystiolaeth bellach debygol fod yn dybiannol. Rhai iddi fod yn bosibl adnabod y dystiolaeth a dylai'r dystiolaeth fod yn debygol o bwyntio tuag at euogrwydd yr un a ddrwgdybir. Wrth wneud y penderfyniad yma mae'n rhaid i erlynwyr ystyried:

- i. natur, maint a derbynioldeb unrhyw dystiolaeth bellach debygol a'r effaith y bydd yn ei gael ar yr achos;
- ii. y rhesymau pam nad yw'r dystiolaeth ar gael yn barod; i yr amser sydd ei angen i sicrhau tystiolaeth bellach ac a yw unrhyw oedi a geir o ganlyniad yn rhesymol dan yr holl amgylchiadau.

Neu

Yr ail sefyllfa - Nid yw'n briodol gweithredu cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn, oherwydd llinellau ymholiad rhesymol nad ydynt wedi derbyn sylw

- 5.9 Er bod yr erlynydd yn fodlon, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, y byddai'n briodol fel arall i weithredu cam tystiolaethol y Prawf Cod Llawn, mae llinellau ymholiad rhesymol heb dderbyn sylw a allai effeithio ar ei weithrediad.
- 5.10 Os yw unhryw un o'r ddwy sefyllfa uchod yn berthnasol, mae'n rhaid i erlynwyr deimlo'n fodlon fod pob un o'r tri amod canlynol wedi eu cyflawni hefyd:

Yr amod cyntaf - Mae difrifoldeb neu amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith

- 5.11 Dylid asesu difrifoldeb ac amgylchiadau'r achos mewn perthynas â'r troseddu honedig a dylid ei gysylltu gyda'r lefel o risg a grewyd drwy ganiatáu mechnïaeth.

Yr ail amod - Mae seiliau sylweddol parhaus i wrthwynebu mechnïaeth yn unol â Deddf Fechnïaeth 1976 ac, ymhob un o amgylchiadau'r achos, mae'n briodol gwneud hynny

- 5.12 Mae'n rhaid i'r penderfynoldeb yma gael ei seilio ar asesiad risg go iawn, sy'n datgelu nad yw'r un a ddrwgdybir yn addas ar gyfer mechnïaeth, hyd yn oed gydag amodau sylweddol. Er enghraifft, rhywun peryglus a ddrwgdybir sy'n achosi risg difrifol o niwed i berson arbennig neu'r cyhoedd, neu rhywun a ddrwgdybir sy'n achosi risg difrifol o ddianc neu amharu â thystion. Ni ddylai erlynwyr dderbyn, heb ymholiad gofalus, urnhyw honiad anghyfiawn neu honiad heb ei gefnogi am risg os cânt eu rhyddhau ar fechnïaeth.

Y trydydd amod - Mae o fudd i'r cyhoedd os cyhuddir yr un a ddrwgdybir

- 5.13 Os bydd y rhannau eraill o'r Prawf Trothwy wedi eu bodloni, mae'n rhaid i erlynwyr weithredu cam budd y

cyhoedd y Prawf Cod Llawn sydd wedi'i seilio ar yr wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd.

Adolygu'r Prawf Trothwy

- 5.14 Mae'n rhaid cadw'r penderfyniad i gyhuddo o dan y Prawf Trothwy o dan adolygiad. Dylai'r erlynydd fod yn rhagweithiol i sicrhau gan yr heddlu y dystiolaeth neu ddeunydd arall a bennwyd sydd heb dderbyn sylw yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gael ei hasesu'n rheolaidd i sicrhau bod y cyhuddiad yn dal i fod yn briodol a bod y gwrthwynebiad parhaus i fechniaeth wedi ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid i'r Prawf Cod Llawn gael ei weithedu mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol ac, yn achosion Llys y Goron, cyn gwasanaethu'r achos erlyniad yn ffurfiol.

Cwestiwn 2

Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y Prawf Trothwy diwygiedig?

Dethol y Cyhuddiadau

- 6.1 Dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sydd:
- yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu;
 - rhoi pwerau digonol y llys i ddedfrydu a gorfodi gorchmynion priodol ar ôl yr euogfarn;
 - caniatáu i orchymyn atafaelu gael ei wneud mewn achosion priodol, lle mae diffynnydd wedi elwa o ymddygiad troseddol; a
 - galluogi i'r achos gael ei gyflwyno mewn ffordd glir a syml.
- 6.2 Mae hyn yn golygu na fydd erlynwyr efallai'n dewis parhau gyda'r cyhuddiad mwyaf difrifol bob amser lle mae dewis i'w gael a lle atebir budd cyfiawnder drwy ddewis y cyhuddiad lleiaf.
- 6.3 Ni ddylai erlynwyr symud ymlaen gyda mwy o gyhuddiadau nag sy'n angenrheidiol dim ond i annog diffynnydd i bledio'n euog i rai ohonynt. Yn yr un ffordd, ni ddylent byth symud ymlaen gyda chyhuddiad mwy difrifol dim ond er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i un llai difrifol.
- 6.4 Ni ddylai erlynwyr newid y cyhuddiad yn syml oherwydd y penderfyniad a wneir gan y llys neu'r diffynnydd ynglŷn â lle y bydd yr achos yn cael ei glywed.
- 6.5 Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau wrth i'r achos symud ymlaen ar ôl y cyhuddo.

Datrys tu allan i'r Llys

- 7.1 Gallai achos o ddatrys tu allan i'r llys gymryd lle erlyniad os yw'n ymateb priodol i'r troseddwr a/neu ddifrifoldeb a chanlyniadau'r troseddu.
- 7.2 Mae'n rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw arweiniad perthnasol pan ofynnir iddynt awdurdodi neu roi cyngor am ddatrys achos tu allan i'r llys, yn cynnwys unrhyw achosion rheoliadol priodol, cosb sifil neu gosbol, neu ddatrysiad arall. Dylent sicrhau bod y safon dystiolaethol briodol ar gyfer datrys achos penodol tu allan i'r llys wedi'i chyrraedd, yn cynnwys, lle bo angen, gyfaddefiad clir o euogrwydd a'r ffaith y byddai budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu'n gywir gan ddatrysiad o'r fath.

Lleoliad y Llys

- 8.1 Mae'n rhaid i erlynwyr ystyried y canllawiau ar ddedfrydu a dyrannu wrth wneud cyflwyniadau i'r llys ynadon ynglŷn â lle y dylid rhoi'r diffynnydd ar dreial.
- 8.2 Ni cheir defnyddio cyflymder fel yr unig reswm byth am ofyn i achos aros yn y llys ynadon. Ond dylai erlynwyr ystyried effaith unrhyw oedi tebygol os anfonir achos i Lys y Goron, yn cynnwys yr effaith bosibl ar unrhyw ddiodefwr neu dyst.
- 8.3 Dylai erlynwyr gofio, os bydd angen achos atafaelu, mai dim ond yn Llys y Goron y gall y rhain ddigywdd. Rhaid ymrwymo achosion cryno i'r pwrpas hwnnw, lle bo'n briodol.

Y lleoliad ar gyfer treialu achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc

- 8.3 Mae'n rhaid i erlynwyr gofio y dylid treialu plant a phobl ifanc (iau nag 18) yn y llys ieuencid lle bynnag y bo modd. Dyma'r llys sydd wedi'i lunio orau i ateb eu gofnion penodol nhw. Dylid cadw treial plentyn neu berson ifanc yn Llys y Goron ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol neu lle mae buddiannau cyfiawnder yn gofyn bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei dreialu ar y cyd gydag oedolyn.

Derbyn Pledion Euog

- 9.1 Efallai y bydd diffynnyddion eisiau pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau, ond nid i bob un ohonynt. Ar y llaw arall, efallai y byddent eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, sy'n llai difrifol o bosib, am eu bod yn cyfaddef i ran o'r drosedd yn unig.
- 9.2 Dylai erlynwyr ond derbyn ple'r diffynnydd os ydynt yn credu bod y llys yn gallu pasio dedfryd sy'n cyfateb â difrifoldeb y troseddu, yn enwedig lle mae nodweddion sy'n gwaethygu'r sefyllfa; ac i alluogi i'r llys wneud y gorchmynion angenrheidiol i hawlio yn ôl unrhyw fudd a dderbyniodd y diffynnydd yn ystod y troseddu. Ni chaiff erlynwyr byth dderbyn ple o euogrwydd dim ond am fod hynny'n gyfleus.

Cwestiwn 3

Mae gofyn i erlynwyr ystyried enillion troseddau pobl a ddrwgdybir / diffynnyddion wrth benderfynu a ddylid cyhuddo [4.14.b], wrth ddewis cyhuddiadau [6.1.c], wrth wneud cyflwyniadau yn lleoliad y llys [8.3] a phan fydd diffynnydd yn cynnig ple [9.2]. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y gofynion yma?

- 9.3 Wrth ystyried a yw'r pledion a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau bod buddiannau, a lle bo'n bosibl, farn y dioddefwr, neu mewn achosion priodol, farn teulu'r dioddefwr, wedi derbyn ystyriaeth wrth benderfynu a ydyw o fudd i'r cyhoedd i dderbyn y ple. Fodd bynnag, yr erlynnydd sydd i benderfynu.
- 9.4 Rhaid dangos yn glir i'r llys ar ba sail y datblygwyd ac y derbyniwyd unrhyw ble. Mewn achosion lle mae diffynnydd yn pledio'n euog i'r cyhuddiadau, ond ar sail y ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a lle gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y ddedfryd, dylid gwahodd y llys i glywed

tystiolaeth i benderfynu beth ddigwyddodd, ac yna i ddedfrydu ar y sail honno.

- 9.5 Lle mae diffynnydd wedi dangos o'r blaen y bydd ef neu hi'n gofyn i'r llys gymryd trosedd i ystyriaeth wrth ddedfrydu, ond yna mae'n gwrthod cyfaddef i'r drosedd honno yn y llys, bydd erlynwyr yn ystyried a oes angen erlyniad ar gyfer y drosedd honno. Dylai erlynwyr esbonio i eiriolwr y diffynnydd a'r llys y gallai erlyniad y drosedd honno fod yn atebol i adolygiad pellach, mewn ymgynghoriad â'r heddlu neu ymchwilwyr eraill lle bynnag y bo modd.
- 9.6 Rhaid cymryd gofal arbennig wrth ystyried pledion a fyddai'n galluogi i'r diffynnydd osgoi derbyn isafswm dedfryd gorfodol. Pan gynigir pledion, mae'n rhaid i erlynwyr hefyd gofio'r ffaith fod modd gwneud gorchmynion atodol gyda rhai troseddau ond nid gydag eraill.

Ailystyried Penderfyniad am Erlyniad

- 10.1 Dylai pobl allu dibynnu ar bendefyniadau a wneir gan Wasanaeth Erlyniad y Goron (CPS). Fel arfer, os bydd Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn dweud wrth un a ddrwgdybir neu ddiffynnydd na fydd erlyniad, neu bod yr erlyniad wedi ei stopio, ni fydd yr achos yn cychwyn eto. Ond o bryd i'w gilydd mae achosion yn codi lle bydd Gwasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) yn gwyrddroi penderfyniad i beidio erlyn neu i ddelio gyda'r achos drwy ddatrys tu allan i'r llys neu pan fydd yn ailgychwyn yr erlyniad, yn enwedig os yw'r achos yn ddifrifol.
- 10.2 Mae'r achosion hyn yn cynnwys:
- a) achosion lle mae adolygiad pellach o'r penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir ac, er mwyn cadw hyder pobl yn y system cyfiawnder troseddol, dylid dod ag erlyniad er gwaethaf y penderfyniad cynharach;
 - b) achosion sy'n cael eu stopio fel bod modd casglu a pharatoi tystiolaeth bellach a ragwelir, sy'n debygol o ddod ar gael yn weddol fuan. Yn yr achosion yma, bydd yr erlynydd yn dweud wrth y diffynnydd ei bod hi'n bosibl iawn y gallai'r erlyniad gychwyn eto;
 - c) achosion sydd heb gael erlyniad neu sydd wedi cael eu stopio oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle mae tystiolaeth fwy sylweddol yn cael ei chanfod yn nes ymlaen; ac
 - d) achosion yn ymwneud â marwolaeth lle mae adolygiad sy'n dilyn canfyddiadau cwest yn dod i'r casgliad y dylid dod ag erlyniad, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio erlyn.

- 10.3 Gallai dioddefwr geisio adolygiad o rai penderfyniadau gan Wasanaeth Erlyniad y Goron (CPS) i beidio cychwyn erlyniad

Nodwch os gwelwch yn dda: mae hon yn ddogfen ymgynghori. Dylai erlynywyr ddefnyddio'r cod cyfredol, Cod 2013, y seithfed cyhoeddiad.

neu i roi stop ar erlyniad, o dan Gynllun Hawl y Dioddefwr i Adolygiad.

Cwestiwn 4

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y diwygiadau sydd wedi eu hawgrymu ar gyfer y Cod?